Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 10 Medi 2015 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 16 MEDI 2015** am **1.00 pm** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM HYSBYSIAD O DDIGWYDDIAD DROS DRO - DENBIGH KEBAB AND BURGER HOUSE, 2 STRYD Y BONT, DINBYCH** (Tudalennau 3 - 12)

Ystyried cais am Hysbysiad o Ddigwyddiad Dros Dro yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â Denbigh Kebab and Burger House, 2 Stryd y Bont, Dinbych (mae amlinelliad o'r cais a'r papurau cysylltiedig ynghlwm).

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Bill Cowie
Win Mullen-James
Cefyn Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy'n bresennol. Mae'n cyflwyno'r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a'r Swyddogion sy'n Bresennol. |
| 2. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais. |
| 3. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno'r Cais. |
| 4. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu'r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda'r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda'r Clerc i'r Gwrandawiad a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda'u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i'w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 16 Medi 2015 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706433 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | **Gwrthwynebiad yr Heddlu i Rybudd Digwyddiad Dros Dro Denbigh Kebab and Burger House 2 Stryd y Bont, Dinbych** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae Rhybudd Digwyddiad Dros Dro wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu gan Mr Kuddusi Demir o ran ymestyn oriau trwydded eiddo bresennol Denbigh Kebab and Burger House, 2 Stryd y Bont, Dinbych.

1.2 Mae Rhybudd Digwyddiad Dros Dro yn awdurdodi unigolyn i ddefnyddio safle ar gyfer un neu fwy o weithgareddau trwyddedadwy. Mae'n rhaid i'r person sy’n dymuno cynnal y digwyddiad, "defnyddiwr y safle", roi'r rhybudd rhagnodedig i’r awdurdod lleol, yr Heddlu ac i Iechyd yr Amgylchedd; gyda’r Heddlu ac Iechyd yr Amgylchedd yn cadw'r hawl i wrthwynebu’r Rhybudd Digwyddiad Dros Dro os ydynt yn credu y byddai unrhyw un o'r amcanion trwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu 2003 yn cael ei danseilio drwy ganiatáu i'r eiddo gael ei ddefnyddio yn unol â'r Rhybudd.

1.3 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno gwrthwynebiad o'r fath ac felly mae’n rhaid i’r Is-bwyllgor ystyried y gwrthwynebiad hwn, gan ystyried yr holl ffeithiau a’r dystiolaeth berthnasol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor a (ii) Chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.2 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, mae’n rhaid i Aelodau geisio hybu’r Amcanion Trwyddedu, ac os yw Aelodau’n ystyried bod materion yn gysylltiedig ag un neu fwy o’r amcanion, gallant arfer eu

disgresiwn. Yr amcanion trwyddedu yw:

1. Atal trosedd ac anhrefn
2. Diogelwch y cyhoedd
3. Atal niwsans cyhoeddus
4. Diogelu plant rhag niwed

2.3 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o'r Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 **Penderfyniad yr Is-Bwyllgor**

Mae'n rhaid i'r Is-Bwyllgor, o ystyried y Rhybudd Gwrthwynebu, gymryd y camau (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo amcanion trwyddedu Deddf Trwyddedu 2003:

Gall yr Is-bwyllgor:

- gyhoeddi Rhybudd Gwrthwynebu os ystyrir ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, neu
- ganiatáu'r Rhybudd Digwyddiad Dros Dro

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae Rhybudd Digwyddiad Dros Dro wedi ei gyflwyno (o fewn y terfynau amser statudol y nodir yn Neddf Trwyddedu 2003), o ran ymestyn oriau'r drwydded eiddo bresennol (darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos) ar 19 a 20 Medi 2015.

4.2 Bydd yr Aelodau yn dymuno nodi bod gan y safle ar hyn o bryd drwydded eiddo sy'n caniatáu darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos ar yr adegau canlynol:

| | |
|---|---|
| Dydd Llun i ddydd Iau | 23:00 tan 01:00 |
| Dydd Gwener a dydd Sadwrn | 23:00 tan 01:30 |
| Dydd Sul | 23:00 tan 00:00 |

4.3 Bydd yr Aelodau'n cofio bod lluniaeth yn hwyr yn y nos yn weithgaredd

trwyddedadwy rhwng 23:00 a 05:00 yn unig; nid oes angen trwydded y tu allan i'r oriau hyn.

4.4 Mae'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio Rhybudd Digwyddiad Dros Dro i ymestyn yr oriau o 01:30 i 02:30 ar 19 a 20 Medi 2015.

4.5 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno Rhybudd Gwrthwynebu dan Adran 104(2) Deddf Trwyddedu 2003 mewn ymateb i'r Rhybudd Digwyddiad Dros Dro (mae copi ohono wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 1).

## 5. SYLWADAU / ARSYLWADAU SWYDDOG

5.1 Mae Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda'u hystyriaethau.

5.2 Nid oes angen awdurdodiad ar gyfer Digwyddiad Dros Dro gan awdurdod trwyddedu; dim ond yr Heddlu ac Iechyd yr Amgylchedd sy'n gallu cymryd camau i atal y digwyddiad rhag cael ei gynnal.

5.3 Mae Heddlu Gogledd Cymru yn credu, os caniateir y Rhybudd Digwyddiad Dros Dro, y bydd posibilrwydd y bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynyddu ac y bydd y drwydded eiddo yn cael ei thorri. Gellir archwilio'r manylion y Rhybudd Gwrthwynebu yn Atodiad 1.

## 6. <u>CRYNODEB</u>

6.1 Dylai Aelodau ystyried y Canllaw a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor; caiff yr Aelodau eu hatgoffa na ddylent wyro oddi wrth y Canllaw a'r Polisi, ac eithrio bod tystiolaeth/rheswm da dros wneud hynny.

6.2 Mae'n rhaid i Aelodau benderfynu a fyddai caniatáu'r Rhybudd Digwyddiad Dros Dro yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol.

6.3 Os yw'r Aelodau yn credu y byddai'r Rhybudd Digwyddiad Dros Dro yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, mae'n rhaid iddynt gyflwyno Rhybudd Gwrthwynebu, ynghyd â Rhybudd yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad i ddefnyddiwr yr eiddo a'r heddlu.

6.4 Os yw'r Aelodau'n penderfynu caniatáu i'r digwyddiad fynd rhagddo, mae'n rhaid iddynt gyflwyno Rhybudd yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad i'r heddlu a defnyddiwr y safle.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag